# SL(6)018 – Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021

## Cefndir a diben

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 97(1) a (2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

Mae'r Ddeddf honno'n diwygio'r gyfraith ar addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn ailenwi Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn Dribiwnlys Addysg Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i gyfeiriadau mewn deddfwriaeth sylfaenol i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae paragraff 7(1)(a) yn Rhan 1 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad, wneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru yn datgymhwyso, am gyfnod penodedig, unrhyw ddeddfiad a restrir yn is-baragraff (5) o'r paragraff hwnnw.

Mae rheoliad 11(2) o'r Rheoliadau pwnc yn cynnig mewnosod paragraff newydd "(ga)" ym mharagraff 7(5) i gynnwys nifer o gyfeiriadau at ddarpariaethau yn Neddf 2018 yn ymwneud â chynlluniau datblygu unigol y caiff Gweinidogion Cymru wedyn eu datgymhwyso yn unol â pharagraff 7(1)(a). Fodd bynnag, mae paragraff (ga) newydd yn cynnwys cyfeiriad at "section 13(7)", nad yw'n ymddangos yn Neddf 2018.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu Technegol 1**: Gwall teipio yw hwn. Dylai'r cyfeiriad fod yn gyfeiriad at adran 13(1) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn hytrach nag at adran 13(7). Bydd y cyfeiriad yn cael ei gywiro pan gyhoeddir yr OS.

Bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi hefyd fod y Memorandwm Esboniadol wedi cael ei ddiwygio i gywiro cyfeiriadau anghywir y sylwyd arnynt ar ôl ei osod.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.